

201- Rhif (Cy.)

PRIFYRDD, CYMRU

GORCHYMYN CEFNFFORDD LLUNDAIN I ABERGWAUN (YR A40) (GWELLIANT LLANDDEWI FELFFRE I BENBLEWIN A THYNNU STATWS CEFNNFFORDD) 201-

Gwnaed 201-

Yn dod i rym 201-

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 10 a 12 o Ddeddf Prifffyrdd 1980⁽¹⁾, yn gwneud y Gorchymyn hwn:-

Enwi, Cychwyn a Dehongli

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar ***** 201- a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd Llundain i Abergwaun (yr A40) (Gwelliant Llanddewi Felffre i Benblewin a Thynnu Statws Cefnffordd) 201-.

2. Yn y Gorchymyn hwn:-

Gwneir pob mesuriad pellter ar hyd llwybr y briffordd berthnasol;

201- No (W.)

HIGHWAYS, WALES

THE LONDON TO FISHGUARD TRUNK ROAD (A40) (LLANDDEWI VELFREY TO PENBLEWIN IMPROVEMENT AND DE-TRUNKING) ORDER 201-

Made 201-

Coming into force 201-

The Welsh Ministers, in exercise of powers conferred by sections 10 and 12 of the Highways Act 1980⁽¹⁾, make this Order:-

Title, Commencement and Interpretation

1. This Order comes into force on ***** 201- and its title is The London to Fishguard Trunk Road (A40) (Llanddewi Velfrey to Penblewin Improvement and De-Trunking) Order 201-".

2. In this Order:-

All measurements of distance are measured along the route of the relevant highway;

⁽¹⁾ 1980 (p. 66). Yn rhinwedd erthygl 2 o O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), ac Atodlen 1 a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

⁽¹⁾ 1980 (c.66). By virtue of S.I.1999/672, article 2 and section 162, and Schedule 1 and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c.32), these powers are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales

(i) ystyr “y plan a adnewwyd” (“*the deposited plan*”) yw’r plan sy’n dwyn y rhif HA10/2 WG15 ac sydd wedi ei farcio “Gorchymyn Cefnffordd Llundain i Abergwaun (yr A40) (Gwelliant Llanddewi Felffre i Benblewin a Thynnu Statws Cefnffordd) 201-” ac wedi ei lofnodi ar ran Gweinidogion Cymru ac wedi ei adneuo (cyf qA1316457) yn Llywodraeth Cymru, Yr Uned Rheoli Gwybodaeth a Chofnodion, Parc Cathays, Caerdydd;

(ii) ystyr “y gefnffordd newydd” (“*the new trunk road*”) yw’r briffordd sydd i’w hadeiladu ar hyd y llwybr a ddisgrifir yn Atodlen 1 i’r Gorchymyn hwn;

(iii) ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw Cefnffordd Llundain i Abergwaun (yr A40).

Priffordd sydd i ddod yn gefnffordd

3. Bydd y briffordd newydd y mae Gweinidogion Cymru yn bwriadau ei hadeiladu ar hyd y llwybr a ddisgrifir yn Atodlen 1 i’r Gorchymyn hwn yn dod yn gefnffordd o’r dyddiad pan ddaw’r Gorchymyn hwn i rym.

4. Dangosir llinell ganol y gefnffordd newydd â llinell ddu drom ar y plan a adnewwyd.

Darnau o gefnffordd sy’n peidio â bod yn gefnffordd

5. Bydd y darnau o’r gefnffordd a ddisgrifir yn Atodlen 2 i’r Gorchymyn hwn, ac a ddangosir â llinellau rhesog llydan ar y plan a adnewwyd, yn peidio â bod yn gefnffordd ac yn dod yn ffyrdd dosbarthiadol o’r dyddiad pan fydd Gweinidogion Cymru yn hysbysu Cyngor Sir Penfro fod y gefnffordd newydd ar agor ar

(i) “the deposited plan” (“*y plan a adnewwyd*”) means the plan numbered HA10/2 WG15 and marked “The London to Fishguard Trunk Road (A40) (Llanddewi Velfrey to Penblewin Improvement and De-Trunking) Order 201-”, signed on behalf of the Welsh Ministers and deposited (ref qA1316457) at the Welsh Government, Information and Records Management Unit, Cathays Park, Cardiff;

(ii) “the new trunk road” (“*y gefnffordd newydd*”) means the highway to be constructed along the route described in Schedule 1 to this Order;

(iii) “the trunk road” (“*y gefnffordd*”) means The London to Fishguard Trunk Road (A40).

Highway to become trunk roads

3. The new highway which the Welsh Ministers propose to construct along the route described in Schedule 1 to this Order shall become a trunk road as from the date when this Order comes into force.

4. The centre line of the new trunk road is indicated by a heavy black line on the deposited plan.

Lengths of trunk road ceasing to be trunk roads

5. The lengths of the trunk road described in Schedule 2 to this Order, and shown by broad striped hatching on the deposited plan shall cease to be trunk road and shall become classified roads as from the date on which the Welsh Ministers notify Pembrokeshire County Council that the new trunk road is open for through traffic.

gyfer traffig trwodd.

Llofnodwyd ar ran Gweinidogion Cymru

Dyddiad 201-

Signed on behalf of the Welsh Ministers

Date 201-

RICHARD MORGAN

Pennaeth Cynllunio, Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

RICHARD MORGAN

Head of Planning, Asset Management and
Standards Welsh Government

YR ATODLENNI

ATODLEN 1

LLWYBR Y GEFNFFORDD NEWYDD

Mae llwybr y gefnffordd newydd rhwng Llanddewi Felffre ac Arberth Wledig yn Sir Benfro fel a ganlyn:

Darn o'r gefnffordd sy'n cychwyn o bwynt tua 278 o fetrau i'r dwyrain o Gapel Bethel, yng Nghymuned Llanddewi Felffre (wedi ei farcio ag A ar y plan a adnewyd) ac yn ymestyn i gyfeiriad cyffredinol y gorllewin am bellter o tua 4.46 o gilometrau hyd at bwynt ar y gefnffordd tua 190 o fetrau i'r gorllewin o'r fynedfa i Penblewin Farm, yng Nghymuned Arberth Wledig (wedi ei farcio â B ar y plan a adnewyd).

ATODLEN 2

DARNAU O GEFNFFORDD SY'N PEIDIO Â BOD YN GEFNFFYRDD

Mae'r darnau o gefnffordd sy'n peidio â bod yn

SCHEDULES

SCHEDULE 1

ROUTE OF THE NEW TRUNK ROAD

The route of the new trunk road is between Llanddewi Velfrey and Narberth Rural in the County of Pembrokeshire as follows:

A length of the trunk road commencing at a point approximately 278 metres east of Bethel Chapel, in the Community of Llanddewi Velfrey (marked A on the deposited plan) and extending in a generally westerly direction for a distance of approximately 4.46 kilometres to a point on the trunk road approximately 190 metres west of the entrance to Penblewin Farm, in the Community of Narberth Rural (marked B on the deposited plan).

SCHEDULE 2

LENGTHS OF TRUNK ROAD CEASING TO BE TRUNK ROAD

The lengths of trunk road ceasing to be trunk

gefnffordd rhwng Llanddewi Felffre ac Arberth Wledig yn Sir Benfro fel a ganlyn:

1. Darn o'r gefnffordd sy'n cychwyn o bwynt tua 301 o fetrau i'r gorllewin o Gapel Bethel, yng Nghymuned Llanddewi Felffre (wedi ei farcio ag C ar y plan a adnewwyd) ac yn ymestyn i gyfeiriad cyffredinol y gorllewin am bellter o tua 1.57 o gilometrau hyd at bwynt ar y gefnffordd tua 305 o fetrau i'r dwyrain o'r gyffordd bresennol i Gapel Ffynnon, yng Nghymuned Llanddewi Felffre (wedi ei farcio â D ar y plan a adnewwyd).

2. Darn o'r gefnffordd sy'n cychwyn o bwynt tua 138 o fetrau i'r gorllewin o'r eiddo o'r enw Henllan Lodge, yng Nghymuned Llanddewi Felffre (wedi ei farcio ag E ar y plan a adnewwyd) ac yn ymestyn i gyfeiriad cyffredinol y gorllewin am bellter o tua 0.75 o gilometrau hyd at bwynt ar y gefnffordd yn union i'r dwyrain o ardal orffwyso'r gefnffordd bresennol, yng Nghymuned Llanddewi Felffre (wedi ei farcio ag F ar y plan a adnewwyd).

road are between Llanddewi Velfrey and Narberth Rural in the County of Pembrokeshire as follows:

1. A length of the trunk road commencing at a point approximately 301 metres west of Bethel Chapel, in the Community of Llanddewi Velfrey (marked C on the deposited plan) and extending in a generally westerly direction for a distance of approximately 1.57 kilometres to a point on the trunk road approximately 305 metres east of the existing junction to Ffynnon Chapel, in the Community of Llanddewi Velfrey (marked D on the deposited plan).

2. A length of the trunk road commencing at a point approximately 138 metres west of the property known as Henllan Lodge, in the Community of Llanddewi Velfrey (marked E on the deposited plan) and extending in a generally westerly direction for a distance of approximately 0.75 kilometres to a point on the trunk road immediately east of the existing trunk road rest area, in the Community of Llanddewi Velfrey (marked F on the deposited plan).

DEDDF PRIFFYRDD 1980

GORCHYMYN CEFNFFORDD LLUNDAIN I ABERGWAUN (YR A40) (GWELLIANT LLANDDEWI FELFFRE I BENBLEWIN A THYNNU STATWS CEFNFFORDD) 201-

A

GORCHYMYN CEFNFFORDD LLUNDAIN I ABERGWAUN (YR A40) (GWELLIANT LLANDDEWI FELFFRE I BENBLEWIN) (FFYRDD YMYL) 201-

HYSBYSIR DRWY HYN fod Gweinidogion Cymru yn bwriadu gwneud y Gorchmynion a ganlyn:-

1. Gorchymyn o dan adrannau 10 a 12 o Ddeddf Priffyrdd 1980 yn darparu:

- (a) y bydd darn o gefnffordd yn cael ei adeiladu sy'n cychwyn o bwynt tua 278 o fetrau i'r dwyrain o Gapel Bethel, yng Nghymuned

THE HIGHWAYS ACT 1980

THE LONDON TO FISHGUARD TRUNK ROAD (A40) (LLANDDEWI VELFREY TO PENBLEWIN IMPROVEMENT AND DE-TRUNKING) ORDER 201-

AND

THE LONDON TO FISHGUARD TRUNK ROAD (A40) (LLANDDEWI VELFREY TO PENBLEWIN IMPROVEMENT (SIDE ROADS) ORDER 201-

NOTICE IS HEREBY GIVEN that the Welsh Ministers propose to make the following Orders:-

1. An Order under section 10 and 12 of the Highways Act 1980 providing that:

- (a) a length of trunk road shall be constructed commencing at a point approximately 278 metres east of Bethel Chapel, in the

Llanddewi Felfre ac yn ymestyn i gyfeiriad cyffredinol y gorllewin am bellter o tua 4.46 o gilometrau hyd at bwynt ar gefnffordd bresennol yr A40 tua 190 o fetrau i'r gorllewin o'r fynedfa i Penblewin Farm, yng Nghymuned Arberth Wledig, ac y bydd yn dod yn gefnffordd o'r dyddiad pan ddaw'r Gorchymyn i rym;

a:-

- (b) y bydd darn o gefnffordd bresennol yr A40 sy'n cychwyn o bwynt tua 301 o fetrau i'r gorllewin o Gapel Bethel, yng Nghymuned Llanddewi Felfre ac yn ymestyn i gyfeiriad cyffredinol y gorllewin am bellter o tua 1.57 o gilometrau hyd at bwynt ar gefnffordd bresennol yr A40 tua 305 o fetrau i'r dwyrain o'r gyffordd bresennol i Gapel Ffynnon, yng Nghymuned Llanddewi Felfre, ac
- (c) darn o gefnffordd bresennol yr A40 sy'n cychwyn o bwynt tua 138 o fetrau i'r gorllewin o'r eiddo o'r enw Henllan Lodge, yng Nghymuned Llanddewi Felfre ac yn ymestyn i gyfeiriad cyffredinol y gorllewin am bellter o tua 0.75 o gilometrau hyd at bwynt ar gefnffordd bresennol yr A40 yn union i'r dwyrain o ardal orffwyso cefnffordd bresennol yr A40, yng Nghymuned Llanddewi Felfre,

yn peidio â bod yn gefnffyrdd ac yn dod yn ffyrdd dosbarthiadol ar y dyddiad pan fydd Gweinidogion Cymru yn rhoi hysbysiad i Gyngor Sir Penfro (a fydd yn dod yn awdurdod priffyrdd dros y darnau hynny).

2. Gorchymyn o dan adrannau 12, 14, 125 a 268 o Ddeddf Priffyrdd 1980 a fydd yn awdurdodi Gweinidogion Cymru:

- a. i wneud gwaith i wella'r priffyrdd;
- b. i gau priffyrdd neu rannau o briffyrdd;
- c. i adeiladu priffyrdd newydd;
- d. i gau mynedfeydd preifat i fangreoeedd;
- e. i ddarparu mynedfeydd newydd i fangreoeedd;
- f. i adeiladu darnau o briffyrdd dros dro; ac
- g. i gau darnau o briffyrdd dros dro,

i gyd ar lwybr y gefnffordd newydd a grybwyllir uchod, neu yn ei gyffiniau; a

Community of Llanddewi Velfrey and extending in a generally westerly direction for a distance of approximately 4.46 kilometres to a point on the existing A40 trunk road approximately 190 metres west of the entrance to Penblewin Farm, in the Community of Narberth Rural and become a trunk road as from the date when the Order comes into force;

and that:-

- (b) a length of the existing A40 trunk road commencing at a point approximately 301 metres west of Bethel Chapel, in the Community of Llanddewi Velfrey and extending in a generally westerly direction for a distance of approximately 1.57 kilometres to a point on the existing A40 trunk road approximately 305 metres east of the existing junction to Ffynnon Chapel, in the Community of Llanddewi Velfrey, and
- (c) a length of the existing A40 trunk road commencing at a point approximately 138 metres west of the property known as Henllan Lodge, in the Community of Llanddewi Velfrey and extending in a generally westerly direction for a distance of approximately 0.75 kilometres to a point on the existing A40 trunk road immediately east of the existing A40 trunk road rest area, in the Community of Llanddewi Velfrey,

shall cease to be trunk roads and shall become classified roads as from the date on which notice is given by the Welsh Ministers to Pembrokeshire County Council (who will become the highway authority for those lengths).

2. An Order under sections 12, 14, 125 and 268 of the Highways Act 1980 which will authorise the Welsh Ministers:

- a. to carry out the improvement of highways;
- b. to stop up highways or areas of highways;
- c. to construct new highways;
- d. to stop up private means of access to premises;
- e. to provide new means of access to premises;
- f. to construct temporarily lengths of highway, and

(2) yn darparu ar gyfer trosglwyddo pob priffordd newydd i Gyngor Sir Penfro fel yr awdurdod priffyrdd a bennir ar ei chyfer yn y Gorchymyn o'r dyddiad y bydd Gweinidogion Cymru yn hysbysu Cyngor Sir Penfro ei bod wedi ei chwblhau a'i bod ar agor ar gyfer traffig trwodd.

Gellir edrych ar gopïau:

- o'r Gorchymynion drafft a'r planiau cysylltiedig,
- o'r Datganiad Esboniadol a'r Hysbysiad Cyhoeddus,
- o'r Datganiad Amgylcheddol a Chrynodeb Annhechnegol,
- o'r Hysbysiadau Amgylcheddol,
- o'r Datganiad i Hysbysu Asesiad Priodol,
- a'r Adroddiad ar Asesiad Cyfnod 3 y Cynllun

yn rhad ac am ddim ar bob adeg resymol o 31 Gorffennaf 2019 tan 20 Medi 2019 yn y manau a ganlyn:

Swyddfeydd Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ

Cyngor Sir Penfro, Neuadd y Sir, Hwlfordd SA61 1TP

Gorsaf Betrol Gwasanaethau Preseli, Llanddewi Felffre, Arberth SA67 7PD

Neuadd y Frenhines, 44 Stryd Fawr, Arberth SA67 7AS

Llyfrgell Hendy-gwyn ar Daf, Neuadd y Dref, Stryd y Brenin Edward, Hendy-gwyn ar Daf SA34 0AA

CAIFF UNRHYW BERSON, heb fod yn hwyrach na 30 Medi 2019, wrthwynebu i'r Gorchymynion gael eu gwneud drwy hysbysu: Y Gangen Orchymynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ, gan ddyfynnu'r cyfeirnod qA1316457 a chan ddatgan ar ba sail y gwneir y gwrthwynebiad. **Sylwer:** Os ydych yn dymuno gwrthwynebu, cefnogi neu gyflwyno sylwadau, bydd y tîm prosiect yn ystyried eich gohebiaeth ac efallai y bydd angen i ni ymgynghori â phobl a sefydliadau y tu allan i Lywodraeth Cymru. Fel rhan o'r broses hon caniateir i ni drosglwyddo gwybodaeth iddynt, gan gynnwys gwybodaeth yr ydych wedi ei rhoi i ni a'ch data personol. Ni fyddwn, fodd bynnag, yn datgelu eich manylion personol ond pan fo hynny'n angenrheidiol er mwyn ein galluogi i ymdrin â'r materion yr ydych wedi eu dwyn i'n sylw. Pan fo cynllun cefnffordd yn dod yn destun Ymchwiliad Cyhoeddus (YC), caiff pob gohebiaeth ei chopio i Arolygydd yr Ymchwiliad ac fe'i cedwir yn y

- g. to close temporarily lengths of highway.

all on, or in the vicinity of the route of the new trunk road aforesaid; and

(2) provide for the transfer of each new highway to Pembrokeshire County Council as highway authority specified for it in the Order as from the date the Welsh Ministers notify Pembrokeshire County Council that they have been completed and are open for through traffic.

Copies of the :

- draft Orders and accompanying plans,
- Explanatory Statement and Public Notice,
- Environmental Statement and a Non-technical Summary,
- Environmental Notices,
- Statement to Inform an Appropriate Assessment
- Stage 3 Scheme Assessment Report

may be inspected free of charge at all reasonable hours from 31 July 2019 until 20 September 2019, at the following premises:

Welsh Government Offices, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ

Pembrokeshire County Council, County Hall, Haverfordwest, SA61 1TP

Preseli Services Petrol Station, Llanddewi Velfrey, Narberth, SA67 7PD

Queen's Hall, 44 High Street, Narberth, SA67 7AS
Whitland Library, Town Hall, King Edward Street, Whitland, SA34 0AA

ANY PERSON may not later than 30 September 2019 object to the making of the Orders by notice to the Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ quoting reference qA1316457 and stating the grounds of objection. **Please note:** Should you wish to object, support or make representations, your correspondence will be considered by the project team and we may need to consult with people and organisations outside of the Welsh Government. As part of this process we may pass information to them, including information you have given us and your personal data. We will however, only disclose your personal details where it is necessary to do so to enable us to deal with issues you have brought to our attention. Where a trunk road scheme becomes the subject of a Public Inquiry (PI), all correspondence is copied to the Inspector of the

Llyfrgell YC lle y bydd ar gael i'r cyhoedd. Os nad ydych yn dymuno i ddata personol penodol gael ei anfon ymlaen at drydydd parti, dylech nodi pam pan fyddwch yn cyflwyno eich gohebiaeth a bydd Gweinidogion Cymru yn copïo'r sylwadau i'r trydydd parti priodol gyda'r enw a'r cyfeiriad wedi eu dileu. Os bydd YC lleol yn cael ei gynnal, bydd yr Arolygydd yn gweld y sylwadau ond efallai y bydd yn rhoi llai o sylw iddynt o ganlyniad i hyn.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn Llinell drafft a'r Hysbysiad drafft ar <https://beta.llyw.cymru/Trafnidiaeth>.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn Ffyrdd Ymyl drafft a'r Hysbysiad drafft ar <https://beta.llyw.cymru/Trafnidiaeth>.

Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

R MORGAN
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

Inquiry and is kept in the PI Library and is publicly available. If you do not wish for certain personal data to be forwarded to third parties, you should state why when submitting your correspondence and the Welsh Ministers will copy the representations to the appropriate third parties with the name and address removed and if there is to be a local PI, the representations will be seen by the Inspector who may give them less weight as a result.

A copy of the draft Line Order and Notice can be viewed at <https://beta.gov.wales/Transport>.

A copy of the draft Side Roads Order and Notice can be viewed at <https://beta.gov.wales/Transport>.

A copy of this Notice in larger print can be obtained from the Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

R MORGAN
Transport
Welsh Government

HYSBYSIAD AM Y DATGANIAD AMGYLCHEDDOL

GWEINIDOGION CYMRU

**GORCHYMYN CEFNFFORDD LLUNDAIN I
ABERGWAUN (YR A40) (GWELLIANT
LLANDDEWI FELFFRE I BENBLEWIN A
THYNNU STATWS CEFNFFORDD) 201-**

**ASESIAD O'R EFFAITH AMGYLCHEDDOL
HYSBYSIAD AM BENDERFYNIAD YN UNOL
AG ADRAN 105B O DDEDDF PRIFFYRDD 1980
(FEL Y'I DIWYGIWYD)**

**ASESIAD O'R GOBLYGIADAU AR GYFER
SAFLEOEDD EWROPEAIDD
HYSBYSIAD AM DDATGANIAD I HYSBYSU
ASESIAD PRIODOL YN UNOL AG ADRAN
63 O REOLIADAU CADWRAETH
CYNEFINOEDD A RHYWOGAETHAU
2017**

Mae Gweinidogion Cymru yn ystyried rhoi prosiect ar

NOTICE OF THE ENVIRONMENTAL STATEMENT

THE WELSH MINISTERS

**THE LONDON TO FISHGUARD TRUNK ROAD
(A40) (LLANDDEWI VELFREY TO
PENBLEWIN IMPROVEMENT AND DE-
TRUNKING) ORDER 201-**

**ENVIRONMENTAL IMPACT ASSESSMENT
NOTICE OF DETERMINATION IN
ACCORDANCE WITH SECTION 105B OF THE
HIGHWAYS ACT 1980 (AS AMENDED)**

**ASSESSMENT OF IMPLICATIONS FOR
EUROPEAN SITES
NOTICE OF STATEMENT TO INFORM AN
APPROPRIATE ASSESSMENT IN
ACCORDANCE WITH SECTION 63 OF THE
CONSERVATION OF HABITATS AND
SPECIES REGULATIONS 2017**

The Welsh Ministers are considering implementing a

waith i adeiladu rhan newydd o gefnffordd yr A40 i'r gogledd o Landdewi Felfre a fydd yn cynnwys gwaith ar y llinell ac oddi ar y llinell a gwelliannau i'r ffyrdd ymyl. Mae'r prosiect hwn yn ddarostyngedig i Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol yn unol â Rhan VA o Ddeddf Priffyrdd 1980 (fel y'i diwygiwyd) a Chyfarwydddeb y CE 2014/52/EU. Gan hynny, mae Gweinidogion Cymru yn hysbysu eu bod wedi cyhoeddi Datganiad Amgylcheddol (DA).

Mae'r prosiect hefyd yn ddarostyngedig i Asesiad o'r Goblygiadau ar gyfer Safleoedd Ewropeaidd (AGSE) yn unol â Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 ac Erthygl 6(3) o Gyfarwydddeb Cynefinoedd 92/43/EC. Gan hynny, mae Gweinidogion Cymru hefyd yn hysbysu eu bod wedi cyhoeddi Datganiad i Hysbysu Asesiad Priodol (DHAP).

Gellir edrych ar gopiâu o'r DA a'r DHAP yn rhad ac am ddim yn ystod oriau busnes rhesymol yn ystod y cyfnod gwrthwynebu yn y manau a ganlyn:

Swyddfeydd Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ

Cyngor Sir Penfro, Neuadd y Sir, Hwlfordd SA61 1TP

Gorsaf Betrol Gwasanaethau Preseli, Llanddewi Felfre SA67 7PD

Neuadd y Frenhines, 44 Stryd Fawr, Arberth SA67 7AS

Llyfrgell Hendy-gwyn ar Daf, Neuadd y Dref, Stryd y Brenin Edward, Hendy-gwyn ar Daf SA34 0AA

Gellir prynu copiâu o'r DA a'r DHAP oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ am y prisiau a ganlyn:

Cyfrwl 1 y DA (Prif Destun) - £90 (y copi);

Cyfrwl 2 y DA (Ffigurau) - £80 (y copi);

Cyfrwl 3 y DA (Atodiadau Technegol) - £180 (y copi);

Datganiad i Hysbysu Asesiad Priodol (DHAP) - £20 (y copi).

Gellir prynu copiâu electronig cyflawn o'r DA a'r DHAP am £5.

Gellir cael copiâu o'r Crynodeb Annhechnegol o'r DA oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ. Mae copi electronig o'r DA a'r Crynodeb Annhechnegol wedi ei gyhoeddi ar-lein ar

project for the construction of a new section of A40 trunk road to the north of Llanddewi Velfrey to include online and off line works and side road improvements. This project is subject to an Environmental Impact Assessment in accordance with Part VA of the Highways Act 1980 (as amended) and EC Directive 2014/52/EU. Therefore the Welsh Ministers give notice that they have published an Environmental Statement (ES).

The project is also subject to an Assessment of Implications on European Sites (AIES) in accordance with the Conservation of Habitats and Species Regulations 2017 and Article 6(3) of the Habitats Directive 92/43/EC. Therefore the Welsh Ministers also give notice that they have published a Statement to Inform an Appropriate Assessment (SIAA).

Copies of the ES and SIAA may be inspected free of charge during all reasonable business hours during the objection period at the following premises:

Welsh Government Offices, Cathays Park, Cardiff. CF10 3NQ

Pembrokeshire County Council, County Hall, Haverfordwest, SA61 1TP

Preseli Services Petrol Station, Llanddewi Velfrey, SA67 7PD

Queen's Hall, 44 High Street, Narberth, SA67 7AS

Whitland Library, Town Hall, King Edward Street, Whitland, SA34 0AA

Copies of the ES and SIAA can be purchased from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ at a cost of:

ES Volume 1 (Technical Assessment Report) - £90 (per copy);

ES Volume 2 (Figures) - £80 (per copy);

ES Volume 3 (Technical Appendices) - £180 (per copy);

Statement to Inform an Appropriate Assessment (SIAA) - £20 (per copy).

Electronic copies of the complete ES and SIAA can be purchased at a cost of £5.

Copies of the ES Non-Technical Summary may be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ. An electronic copy of the ES and Non-Technical Summary is published on-line at <https://beta.gov.wales/Transport>.

<https://beta.llyw.cymru/Trafnidiaeth>.

Dylid cyflwyno unrhyw sylwadau am y prosiect a/neu'r DA a/neu'r DHAP yn ysgrifenedig i: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ, a rhaid iddynt gyrraedd erbyn 20 Medi 2019 fan bellaf.

Bydd Gweinidogion Cymru yn ystyried pob sylw ysgrifenedig cyn penderfynu a ydynt am fwrw ymlaen â'r prosiect ai peidio, gydag addasiadau neu hebddynt.

Gellir cael rhagor o wybodaeth am y prosiect, y DA, y DHAP neu'r hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

R MORGAN
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru
ar ran Gweinidogion Cymru

Any comments about the project and/or the ES and/or the SIAA, should be made in writing to Orders Branch, Transport, Welsh Government Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ to arrive no later than 20 September 2019.

The Welsh Ministers will take all written comments into consideration before deciding whether or not to proceed with the project with or without modifications.

Further information about the project, the ES, SIAA or this notice, can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

R MORGAN
Transport
Welsh Government
On behalf of the Welsh Ministers

HYSBYSIAD AM BENDERFYNIAD

GWEINIDOGION CYMRU

**GORCHYMYN CEFNFFORDD LLUNDAIN I
ABERGWAUN (YR A40) (GWELLIANT
LLANDDEWI FELFFRE I
BENBLEWIN A THYNNU STATWS
CEFNFFORDD) 201-**

**ASESIAD O'R EFFAITH AMGYLCHEDDOL
HYSBYSIAD AM BENDERFYNIAD YN UNOL
AG ADUAN 105 B O DDEDDF PRIFYRDD 1980
(FEL Y'I DIWYGIWYD)**

**ASESIAD O'R GOBLYGIADAU AR GYFER
SAFLEOEDD EWROPEAIDD
HYSBYSIAD AM DDATGANIAD I HYSBYSU
ASESIAD PRIODOL YN UNOL AG ADUAN 63 O
REOLIADAU CADWRAETH CYNEFINOEDD A
RHYWOGAETHAU 2017**

NOTICE OF DETERMINATION

THE WELSH MINISTERS

**THE LONDON TO FISHGUARD TRUNK ROAD
(A40) (LLANDDEWI VELFREY TO
PENBLEWIN IMPROVEMENT AND DE-
TRUNKING) ORDER 201-**

**ENVIRONMENTAL IMPACT ASSESSMENT
NOTICE OF DETERMINATION IN
ACCORDANCE WITH SECTION 105 B OF THE
HIGHWAYS ACT 1980 (AS AMENDED)**

**ASSESSMENT OF IMPLICATIONS FOR
EUROPEAN SITES
NOTICE OF STATEMENT TO INFORM AN
APPROPRIATE ASSESSMENT IN
ACCORDANCE WITH SECTION 63 OF THE
CONSERVATION OF HABITATS AND
SPECIES REGULATIONS 2017**

Mae Gweinidogion Cymru yn hysbysu eu bod wedi penderfynu y bydd y cynnig i adeiladu darn newydd o gefnffordd yr A40 i'r gogledd o Llanddewi Felffre a fydd yn cynnwys gwaith ar y llinell ac oddi ar y llinell a gwelliannau i'r ffyrdd ymyl, sy'n brosiect perthnasol o fewn ystyr Adran 105A(1) o Ddeddf Priffyrdd 1980 (fel y'i diwygiwyd), yn ddarostyngedig i Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol yn unol â Rhan VA o Ddeddf Priffyrdd 1980 (fel y'i diwygiwyd), Cyfarwyddeb y CE 2014/52/EU.

Maent hefyd yn hysbysu bod rhaid cynnal Asesiad o'r Goblygiadau ar gyfer Safleoedd Ewropeaidd o dan adran 63 o Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 ac Erthygl 6(3) o Gyfarwyddeb Cynefinoedd 92/43/EC.

Dylid anfon unrhyw sylwadau am yr hysbysiad hwn i: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ. Dylid gwneud unrhyw sylwadau cyn gynted â phosibl a dylent ddod i law Llywodraeth Cymru erbyn 20 Medi 2019.

Gellir cael rhagor o wybodaeth am y prosiect ac am yr hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

R MORGAN

Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru
ar ran Gweinidogion Cymru

**CYNLLUN GWELLIANT LLANDDEWI
FELFFRE I BENBLEWIN A THYNNU STATWS
CEFNNFFORDD CEFNNFFORDD LLUNDAIN I
ABERGWAUN (YR A40)**

**ARDDANGOSFA GYHOEDDUS O GYNIGION Y
GORCHMYNION DRAFFT**

HYSBYSIR DRWY HYN fod Gweinidogion Cymru yn bwriadu cynnal arddangosfa gyhoeddus o'r Gorchmynion drafft ar gyfer y cynllun uchod. Cynhelir yr arddangosfa yn Neuadd Bentref Llanddewi Felffre,

The Welsh Ministers give notice that they have determined that the proposal to construct a new section of A40 trunk road to the north of Llanddewi Velfrey to include online and off line works and side road improvements, which is a relevant project within the meaning of Section 105A (1) of the Highways Act 1980 (as amended), is to be made subject to an Environmental Impact Assessment in accordance with Part VA of the Highways Act 1980 (as amended), EC Directive 2014/52/EU.

They also give notice that an Assessment of Implications for European Sites under Section 63 of the Conservation of Habitats and Species Regulations 2017 and Article 6(3) of the Habitats Directive 92/43/EC is required.

Any comments about this notice should be sent to Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ. Any comments should be made as soon as possible and received by the Welsh Government by 20 September 2019.

Further information on the project and about this notice may be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

R MORGAN

Transport, Welsh Government
on behalf of the Welsh Ministers

**THE LONDON TO FISHGUARD TRUNK ROAD
(A40) LLANDDEWI VELFREY TO
PENBLEWIN IMPROVEMENT AND DE-
TRUNKING SCHEME**

**PUBLIC EXHIBITION OF DRAFT ORDER
PROPOSALS**

NOTICE IS HEREBY GIVEN that the Welsh Ministers propose to hold a public exhibition of the draft Orders for the above scheme. The exhibition will be held at the Llanddewi Velfrey Village Hall,

Llanddewi Felfre, Sir Benfro SA67 7PA ar y dyddiadau a'r amseroedd a ganlyn:

Dydd Iau 15 Awst 2019 o 12:00 canol dydd hyd 8:00pm

a
dydd Iau 5 Medi 2019 o 12:00 canol dydd hyd 8:00pm.

Bydd copïau o'r Gorchmynion drafft ynghyd â'u dogfennau cysylltiedig ar gael yn yr arddangosfa a byddant hefyd ar gael i edrych arnynt yn y mannau a ganlyn o 31 Gorffennaf 2019:

- Swyddfeydd Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ
- Cyngor Sir Penfro, Neuadd y Sir, Hwlfordd SA61 1TP
- Gorsaf Betrol Gwasanaethau Preseli, Llanddewi Felfre SA67 7PD
- Neuadd y Frenhines, 44 Stryd Fawr, Arberth SA67 7AS
- Llyfrgell Hendy-gwyn ar Daf, Neuadd y Dref, Stryd y Brenin Edward, Hendy-gwyn ar Daf SA34 0AA

Dylai unrhyw bersonau sy'n dymuno i'w barn am y cynigion gael ei hystyried ysgrifennu at Lywodraeth Cymru, yn y cyfeiriad ym Mharc Cathays uchod, gan ddyfynnu'r cyfeirnod qA1316455 erbyn 20 Medi 2019.

Sylwer: Os ydych yn dymuno mynegi barn, bydd y Tîm Prosiect yn ystyried eich gohebiaeth ac efallai y bydd angen i ni ymgynghori â phobl a sefydliadau y tu allan i Lywodraeth Cymru. Fel rhan o'r broses o ymgynghori ag eraill caniateir i ni roi gwybodaeth iddynt, gan gynnwys gwybodaeth yr ydych wedi ei rhoi i ni a'ch data personol. Ni fyddwn, fodd bynnag, yn datgelu eich manylion personol ond pan fo hynny'n angenrheidiol er mwyn ein galluogi i ymdrin â'r materion yr ydych wedi eu dwyn i'n sylw. Pan fo Cynllun Cefnffordd yn dod yn destun Ymchwiliad Cyhoeddus (YC), caiff pob gohebiaeth ei chopïo i Arolygydd yr Ymchwiliad ac fe'i cedwir yn y Llyfrgell YC lle y bydd ar gael i'r cyhoedd. Os nad ydych yn dymuno i ddata personol penodol gael ei anfon ymlaen at drydydd parti, dylech nodi pam pan fyddwch yn cyflwyno eich gohebiaeth a bydd Gweinidogion Cymru'n copïo'r sylwadau i'r trydydd parti priodol gyda'r enw a'r cyfeiriad wedi eu dileu. Os bydd Ymchwiliad Cyhoeddus lleol yn cael ei gynnal, bydd yr Arolygydd yn gweld y sylwadau ond efallai y bydd yn rhoi llai o sylw iddynt o ganlyniad i

Llanddewi Velfrey, Pembrokeshire, SA67 7PA on the following dates and times:

Thursday 15 August 2019 from 12:00 noon until 8:00pm

and

Thursday 5 September 2019 from 12:00 noon until 8:00pm.

Copies of the draft Orders together with their associated documents will be available at the exhibition and will also be available for inspection at the following venues from 31 July 2019:

- Welsh Government Offices, Cathays Park, Cardiff. CF10 3NQ
- Pembrokeshire County Council, County Hall, Haverfordwest. SA61 1TP
- Preseli Services Petrol Station, Llanddewi Velfrey. SA67 7PD
- Queen's Hall, 44 High Street, Narbeth. SA67 7AS
- Whitland Library, Town Hall, King Edwards Street, Whitland. SA34 0AA

Any persons who wish to have their views on the proposals considered should write to the Welsh Government, at the Cathays Park address above, quoting reference qA1316455 by 20 September 2019.

Please Note: Should you wish to Express an opinion, your correspondence will be considered by the Project Team and we may need to consult with people and organisations outside of the Welsh Government. As part of this process we may pass information to them, including information you have given us and your personal data. We will however, only disclose your personal details where it is necessary to do so to enable us to deal with issues you have brought to our attention. Where a Trunk Road Scheme becomes the subject of a Public Inquiry (PI), all correspondence is copied to the Inspector of the Inquiry and is kept in the PI Library and is publicly available. If you do not wish for certain personal data to be forwarded to third parties, you should state why when submitting your correspondence and the Welsh Ministers will copy the representations to the appropriate third parties with the name and address removed and if there is to be a local Public Inquiry, the representations will be seen by the Inspector who may give them less weight as a result.

A copy of this Notice in larger print can be obtained from the Orders Branch, Transport,

hyn.

Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

J SADDLER
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

J SADDLER
Transport
Welsh Government